

Amgueddfa Cymru



Paratoi ar gyfer Her Fer Dinasyddiaeth Fyd-eang

PARATOI EICH SAFBWYNT PERSONOL A'CH GWEITHGAREDD CODI YMWHYDDIAETH

Bydd y gweithgareddau hyn yn eich helpu i baratoi ar gyfer yr Her Fer. Maent wedi'u llunio i'w defnyddio gyda'r Pecyn Ffynonellau cysylltiedig.

Mae eich ymchwil wedi rhoi llawer o wybodaeth i chi ar y pwnc **Tlodi** a **Llafur Plant** yn y diwydiant glo yng Nghymru.

Mae'n rhaid i'ch **Safbwynt Personol** gynnwys:

- Gwybodaeth am yr agweddau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol (**PESTLE**) ar y pwnc
- Eich barn bersonol am y pwnc **Tlodi** a **Llafur Plant** gan wneud sylwadau am **hygrededd** neu **ddibynadwyedd** y ffynonellau yr ydych yn cyfeirio atynt

YMCHWILIO I DLODI A LLAFUR PLANT YN Y DIWYDIANT GLO

GWEITHGAREDD 1: DEALL A DEFNYDDIO PESTLE

Bydd y gweithgaredd hwn yn eich helpu i ddysgu i adnabod yr agweddau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol (PESTLE) ar y pwnc hwn. Yn gyntaf, astudiwch y tabl isod.

GWLEIDYDDOL	Barn a gweithredoedd llywodraethau a gwleidyddion
ECONOMAIDD	Agweddau a gweithredoedd rhieni a chyflogwyr
CYMDEITHASOL	Credoau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol mewn rhai cymunedau
TECHNOLEGOL	Yr angen i ddefnyddio llafur plant oherwydd y dechnoleg, y peiriannau neu'r cyfarpar yn y pyllau glo
CYFREITHIOL	Deddfau yn ymwneud â llafur plant a pha mor effeithiol yr oeddent
AMGYLCHEDDOL	Effaith y diwydiant glo ar yr amgylchedd

1. Astudiwch Ffynhonnell 1. Dewch o hyd i frawddeg neu wybodaeth o'r ffynhonnell hon sy'n cyfeirio at bob un o'r ffactorau PESTLE a'i rhoi wrth ochr y datganiad cywir yn y tabl PESTLE isod.

Gwleidyddol	
Economaidd	
Cymdeithasol	
Technolegol	
Cyfreithiol	
Amgylcheddol	

2. Gan ddefnyddio Ffynonellau 1 a 2 ysgrifennwch adroddiad ar y rhesymau dros lafur plant ym mhyllau glo de Cymru yn y 19eg ganrif. Cofiwch gynnwys rhesymau sy'n ymwneud â phob un o'r ffactorau PESTLE yn eich adroddiad.

GWEITHGAREDD 2: DEALL AGWEDDAU A SAFBWYNTIAU

Wrth geisio deall sut a pham yr oedd pobl yn gwneud pethau yn y gorffennol mae'n bwysig ceisio dangos empathi, sy'n golygu gweld pethau o'u safbwynt nhw. Bydd deall agweddau pobl yn y gorffennol tuag at lafur plant yn ein helpu i ddeall yr arfer heddiw.

1. Astudiwch Ffynhonnell 4, lle mae William Thomas yn cofio ei fywyd fel glöwr ifanc yn y 1930au – rhyw gan mlynedd ar ôl y dystiolaeth yn Adroddiad 1842 ar y Pyllau Glo
2. Mae hyn yn dweud llawer wrthym am pam yr oedd bechgyn ifanc yn mynd i weithio yn y pyllau glo pan oeddent yn 14 oed a sut yr oedd pobl yn y gymuned lofaol yn teimlo am hyn
3. Atebwch y chwe chwestiwn ym mhob adran o'r cyfweiliad
4. Trafodwch eich atebion gyda'ch cyd-ddisgyblion, gan ychwanegu unrhyw bwyntiau da na chawsant eu cynnwys gennych chi at eich nodiadau
5. Defnyddiwch dystiolaeth William Thomas i gwblhau'r adroddiad byr hwn

Agweddau annymunol ar ei fywyd fel glöwr ifanc

Y rhesymau pam yr anfonwyd William i weithio yn y pwll glo lleol gan ei dad yn 14 oed yn unig

Y rhesymau pam nad oedd yn ymddangos bod William Thomas yn ddig neu'n ddigalon o ganlyniad i'w fywyd fel glöwr ifanc

- i. Yn llys barn hanes, a ddylai haneswyr ddal unrhyw un i gyfrif am lafur plant ym mhyllau glo Cymru yn ystod y 200 mlynedd diwethaf?

GWEITHGAREDD 3: DADANSODDI HYGREDEDD FFYNONELLAU

Byddwch yn gwybod o'ch gwersi hanes pa mor bwysig yw ystyried hygreddd ffynonellau. Mae'n rhaid i chi arddangos eich bod yn gallu dadansoddi ffynonellau'n effeithiol wrth gyflwyno eich safbwynt personol. Bydd y gweithgaredd hwn yn profi eich gallu i ddadansoddi ffynonellau.

Pa mor ddibynadwy yw'r Adroddiad ar y Pyllau Glo?

Astudiwch y ffynonellau canlynol.

Ffynhonnell 1: Robert Hugh Franks, Comisiynydd y Pyllau Glo a adroddodd ar Bwll Glo Dinas ym 1842

Fel arfer mae'r bachgen sy'n gweithredu'r drysau aer rhwng 5 ac 11 oed. Mae'n gweithio yn y pwll wrth y drws aer a'i dasg yw agor y drws fel bod y cludwr gyda'i geffyl a'i dram yn gallu pasio, a'i gau wedyn. Mewn rhai pyllau mae sefyllfa'r trueiniaid hyn yn peri gofid. Mae'r plentyn truenus yn treulio'r diwrnod ar ei ben ei hun gydag un gannwyll mewn amodau oer, gwlyb a chyfyng, wedi'i amddifadu o olau ac aer ac yn newynog. Mae'n cael cyflog o rhwng 6d a 8d y dydd. Ni all rhywun ond tybio mai dim byd llai na thlodi eithafol fyddai'n gorfodi rhiant i aberthu bodolaeth gorfforol a moesol ei blentyn! Ac eto dyma'r sefyllfa yn ôl fy mhrofiad i, ac mae trachwant rhieni yn gymaint o ysgogiad â'u tlodi.

Ffynhonnell 2: Walter Coffin, perchennog Pwll Glo Dinas

Adroddodd yr archwilwyr fod Coffin yn cyflogi 81 o blant dan 13 oed, bron draean o'r gweithlu.

Mae ysgol yn gysylltiedig â'r pwll glo. Caiff tâl o 2d am bob punt ei atal wrth y bwrdd tâl er mwyn cynnal yr ysgol a chaiff 1d ym mhob punt ei atal ar gyfer y gŵr meddygol sy'n gofalu am y gweithlu.

Ffynhonnell 3: Philip Davis, 10 mlwydd oed, cludwr

Rwyf wedi bod yn gyrru ceffylau dan ddaear ers tair blynedd ac roeddwn yn gweithio ar ddrws aer am 12 mis cyn hynny. Pan oeddwn wrth y drws roeddwn yn arfer syrthio i gysgu'n aml. Rwy'n gweithio 12 awr. Byddwn yn mynd i'r ysgol pe na bai'r gwaith mor hir ond ni allaf fynd nawr gan fod rhaid i mi weithio drwy'r nos yn ogystal â'r sifftiau dydd.

[Methu darllen. Wedi'i esgeuluso'n arw. Eiddil o ran pryd a gwedd.]

GWEITHGAREDD 3

Ffynhonnell 4: William Isaac, 11 mlwydd oed, ceidwad y drws aer

Mae'r gweithfeydd wedi'u hawyru'n dda yma... Rydych yn mynd i mewn drwy siafftiau. Nid oes neb erioed wedi marw yn ein pyllau ni o ganlyniad i'r peiriannau... Mae'r prif ffyrdd rhyw bum troedfedd o uchder ac mae'r wythien lo yr ydym yn gweithio arni nawr rhyw dair troedfedd o drwch, rhyw 42 gwryd (80 metr) o wyneb y ddaear. Mae rhywfaint o nwy fflamadwy yn ein pyllau, ond nid oes unrhyw ddamweiniau wedi deillio o danchwa neu dagnwy. Lladdwyd un dyn yn ystod y ddwy flynedd diwethaf wrth suddo pwll newydd a disgynodd oddi ar lwyfan yn y canol i waelod y pwll. Ni chyflogir unrhyw fenywod yn ein gwaith ni ac nid ydym chwaith yn defnyddio gwregys a chadwyn.

Rhyw wyth mlwydd oed yw'r rhai ieuengaf a gaiff eu cyflogi yma a'u gwaith fel arfer yw gofalu am y drysau aer. Maen nhw'n ymddangos yn iach ond yn sicr ni ddylid cyflogi plant iau.

Ffynhonnell 5: Thomas Hays, glöwr

Prin iawn yw'r damweiniau yma. Mae'r pyllau wedi'u hawyru'n dda. Bu ffrwydriad difrifol iawn rhyw ddwy flynedd yn ôl pan laddwyd tri dyn.

Ffynhonnell 6: Matthew Lewis, 11 mlwydd oed, glöwr

Dechreuodd weithio yn saith mlwydd oed. Mae'n gweithio 12 awr y dydd, weithiau'n hwy. Mae'n gweithio gerllaw'r wythien 30 modfedd. Llosgwyd ef gan danchwa dair blynedd yn ôl pan oedd yn gweithio wrth y drws aer a bu'n segur am chwe mis. Gofalwyd amdano gan Mr. Evan Davis, y meddyg ac mae'n credu iddo gael ei dalu gan Mr. Coffin. Roedd y boen yn annioddefol. Llosgwyd sawl un arall, un bron hyd farwolaeth. Mae'n teimlo'n hynod ddolurus ar adegau gan fod y croen newydd yn dyner iawn.

Yn sillafu ychydig yn y Gymraeg ond nid yw'n deall gair o Saesneg.

GWEITHGAREDD 3

Ffynhonnell 6: Matthew Lewis, 11 mlwydd oed, glöwr

Mae'n rhaid iddo ofalu am y drysau aer yn y pwll glo. Mae'n mynd i lawr y siafft am bedwar a phump o'r gloch y bore ac yn dychwelyd am bump neu chwech o'r gloch y nos. Mae'n gweithio drwy'r nos yn aml. Mae wedi bod dan ddaear am bedair blynedd a chafodd ei losgi gan danchwa 20 mis yn ôl a bu'n segur am 18 mis. Dim ond ddau fis yn ôl y dychwelodd i'r pwll.

Digwyddodd y ddamwain am fod glöwr wedi mynd i mewn i un o'r hen weithiau yn ddi-ofal gyda'i gannwyll yn agos at y to. Llosgwyd sawl un a lladdwyd y ceffyl a oedd yn dod â'r certiau i'r wyneb. Mae'n mynd â bara a chaws i lawr y pwll. Roedd yn mynd i ysgol ddydd cyn iddo ddechrau gweithio yn y pwll ac roedd wedi dysgu darllen ond mae wedi anghofio bron popeth bellach.

[Wedi'i esgeuluso. Holl groen ei wyneb wedi'i losgi a phryd a gwedd annymunol. Roedd y llygaid yn llidus iawn.]

Ffynhonnell 7: Thomas Slatheral, 11 mlwydd oed, glöwr

Dechreuodd weithio yn wyth mlwydd oed. Aeth ei dad â mi i hawlio'i ddram [cert glo ychwanegol a ganiateir i lowyr sy'n mynd â'u bechgyn eu hunain i lawr y pwll]. Mae'n dethol glo ac yn casglu offer a chanhwyllau i'w dad a gall ennill 6s i 7s yr wythnos. Nid yw wedi cael anaf erioed. Nid yw wedi bod i'r ysgol.

* Mae'r ffynonellau'n defnyddio mesuriadau 'imperial' hen ffasiwn a thermâu cyn degoli ar gyfer arian. Cymharwch y rhain â gwerthoedd arian modern.

GWEITHGAREDD 3

A allwch ddadansoddi hygredd y ffynonellau hyn?

- Pa dystiolaeth a geir yn y ffynonellau hyn i ddangos bod plant yn gweithio oriau hir?
- Pa dystiolaeth a geir i ddangos bod yr amodau gwaith yn wael?
- Pa dystiolaeth a geir i ddangos bod damweiniau dan ddaear yn aml yn digwydd i blant?
- Pa dystiolaeth a geir i ddangos bod Walter Coffin yn pryderu am ei weithwyr?
- a mor ddibynadwy yw dystiolaeth
 - y plant yn y ffynonellau hyn
 - Walter Coffin
 - Robert Franks

Defnyddiwch y tabl isod i'ch helpu i ddadansoddi'r ffynonellau.

Gan ddefnyddio pob un o'r ffynonellau uchod ac, os ydych yn dymuno, unrhyw ffynonellau eraill o Adroddiad 1842 ar y Pyllau Glo, atebwch y cwestiwn canlynol.

Pa mor ddibynadwy oedd Adroddiad 1842 ar y Pyllau Glo?

Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynhonnell?	Pa wybodaeth y gallwch ei chael o'r ffynhonnell hon? A yw'r wybodaeth hon yn fanwl neu'n gyfyngedig mewn unrhyw ffordd?
Pa resymau sydd dros gredu'r ffynhonnell?	Beth sy'n gwneud y ffynhonnell hon yn gredadwy ac yn ddibynadwy? A yw, er enghraifft, yn ddogfen swyddogol gan y llywodraeth, yn dystiolaeth uniongyrchol gan lygad-dyst, neu'n cyfateb i ffynonellau dibynadwy eraill?
A oes unrhyw resymau dros amau'r ffynhonnell?	A allai'r ffynhonnell neu rannau ohoni fod yn annibynadwy e.e. a allai fod yn anghywir, yn gelwydd, yn rhagfarnllyd, neu wedi'i gorliwio?

GWEITHGAREDD 4: PLANT YN Y DIWYDIANT GLO HEDDIW

Astudiwch y ffynonellau ar blant sy'n gweithio yn y diwydiant glo yn India heddiw.

- i. Mae'r ffynonellau'n cyfeirio at y rhesymau pam y cyflogir plant yn y diwydiant glo yn India o hyd, effaith y gwaith hwn ar ardal Talaith Meghalaya ac ar fywydau'r bobl sy'n byw yno. Dewch o hyd i frawddeg neu wybodaeth o'r ffynonellau hyn sy'n cyfeirio at bob un o'r ffactorau PESTLE a'i rhoi ochr yn ochr â'r datganiad cywir yn y tabl PESTLE isod.
- ii. Pa mor ddibynadwy yw'r adroddiad gan ffotograffydd National Geographic, Robb Kendrick yn Ffynhonnell 7, fel tystiolaeth bod llafur plant yn bodoli yng ngogledd ddwyrain India?
- iii. Pa mor ddibynadwy yw tystiolaeth gweinidog gwladol y pyllau glo yn Ffynhonnell 10?


Gwleidyddol	
Economaidd	
Cymdeithasol	
Technolegol	
Cyfreithiol	
Amgylcheddol	

GWEITHGAREDD 5: YSGRIFENNU SAFBWyNT PERSONOL

Paratowch safbwynt personol ar y pwnc tlodi a llafur plant yn y diwydiant glo (1-2 ochr A4). Gallwch gyfeirio at y wybodaeth neu'r ffynonellau yr ydych wedi'u hastudio.

Cofiwch gynnwys:

-
- Gwybodaeth am yr agweddau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol (**PESTLE**) ar y pwnc
 - Eich barn bersonol am **Dlodi a Llafur Plant**
-



GWEITHGAREDD 5

Cynllun posibl: Dechreuwch drwy gasglu tystiolaeth a gwneud nodiadau o'r ffynonellau:

Rhesymau pam y cyflogwyd plant yn y diwydiant glo. Beth yw eich barn am hyn a phwy sydd ar fai?

Ffynhonnell	Dibynadwyedd (Pam ddylech chi ymddiried neu pam na ddylech chi ymddiried ynddi?)	Gwybodaeth neu ddyfyniadau defnyddiol

Amodau gwaith. Beth yw eich barn am hyn a phwy sydd ar fai?

Ffynhonnell	Dibynadwyedd (Pam ddylech chi ymddiried neu pam na ddylech chi ymddiried ynddi?)	Gwybodaeth neu ddyfyniadau defnyddiol

GWEITHGAREDD 5

Amodau byw a'r amgylchedd. Beth yw eich barn am hyn a phwy sydd ar fai?

Ffynhonnell	Dibynadwyedd (Pam ddylech chi ymddiried neu pam na ddylech chi ymddiried ynddi?)	Gwybodaeth neu ddyfyniadau defnyddiol

Effaith deddfau yn erbyn llafur plant mewn pyllau glo. Beth yw eich barn am hyn a phwy sydd ar fai?

Ffynhonnell	Dibynadwyedd (Pam ddylech chi ymddiried neu pam na ddylech chi ymddiried ynddi?)	Gwybodaeth neu ddyfyniadau defnyddiol

GWEITHGAREDD 5

Beth ydych chi'n credu y dylid ei wneud ynglŷn â'r mater hwn heddiw?

GWEITHGAREDD 6: GWEITHGAREDD CODI YMWEYBYDDIAETH

Fel unigolyn neu fel tîm (sy'n cynnwys 3–6 o aelodau), datblygwch weithgaredd i godi ymwybyddiaeth o dlodi a llafur plant ar gyfer disgyblion iau a'i roi ar waith.

Ar eich pen eich hun, cynhyrchwch **Becyn Codi Ymwybyddiaeth** sy'n cynnwys tystiolaeth yn dangos:

- y broses o gynhyrchu a gwerthuso syniadau ar gyfer **Codi Ymwybyddiaeth**
- y broses o ddewis un syniad
- y broses o ddatblygu a rhoi'r syniad ar waith gan gynnwys technegau priodol i ddatrys problemau a gwneud penderfyniadau
- deunyddiau ac adnoddau i'w defnyddio yn y gweithgaredd **Codi Ymwybyddiaeth**

Bydd ymweld â Big Pit yn rhoi syniad rhagorol i chi o sut mae amgueddfeydd yn Codi Ymwybyddiaeth drwy eu defnydd o adnoddau a'r ffordd y maent yn cyflwyno hanes.



AMIGUEDDFA CYMRU



HER FER DINASYDDIAETH FYD-EANG AMGUEDDFA CYMRU

Eich her yw ymchwilio i'r pwnc **Tlodi** a **Llafur Plant** yn y byd modern.

Wrth baratoi ar gyfer yr Her Fer hon rydych wedi astudio ffynonellau ac wedi ymweld ag amgueddfeydd sydd wedi rhoi dealltwriaeth dda i chi o'r pwnc cyflogi plant yn y diwydiant glo.

Rydych nawr yn barod i gwblhau Her Fer Dinasyddiaeth Fyd-eang Amgueddfa Cymru drwy ymchwilio i'r mater mewn amrywiaeth o ddiwydiannau a gwledydd eraill yn y byd modern.